# Cyfarfod Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd
# Crynodeb o'r Cyfarfod
### Dydd Llun 24 Chwefror 2020

Ystafell Farchnata, Castell Caerdydd, Stryd y Castell, Caerdydd CF10 3RB

**Yn bresennol:**

Adrian Field
Andy Warnock
Antwn Owen Hicks
Bethan Elfyn
Y Cyng. Bradbury
Y Cyng. Huw Thomas
Daniel Minty
Gavin Allen
Gerwyn Evans
Guto Brychan
Helia Phoenix
James Moore
Lauren Aldridge
Liz Hunt
Lucy Squire
Michael Garvey
Phil Sheeran
Ruth Cayford
Sarah Hemsley Cole
Tumi Williams

**Ymddiheuriadau:**

Hannah Jenkins
Heather Brown
Jonathan Day
Joe Jones
Jon Fox
Nick Saunders

| **Cofnodion** | |
|---|---|
| Cymeradwywyd y cofnodion gan y Bwrdd. | **CAM GWEITHREDU: Cofnodion cymeradwy i'w cyhoeddi.** |
| **Materion yn Codi** | |
| Cafwyd trafodaeth am yr angen i sefydlu protocol er mwyn i'r Bwrdd wneud neu ymateb ar y cyd i ddatganiadau cyhoeddus.<br><br>Ysgrifennodd y Cyng. Thomas at Lywodraeth Cymru a gadarnhaodd fod lleihau ardrethi busnes ar gyfer lleoliadau ar lawr gwlad yn fater datganoledig ac roedd dull gweithredu penodol i Gymru ar waith.<br><br>Cadarnhaodd Gerwyn Evans fod adroddiad Llywodraeth Cymru am gerddoriaeth fyw i fod i gael ei gyhoeddi yn ystod y 2 fis nesaf gan fod yr holl dystiolaeth bellach wedi'i chasglu.<br><br>Mae Daniel Minty yn creu rhestrau canolog ar gyfer cerddoriaeth fyw, sydd i'w cwblhau ym mis Ebrill 2020. Gofynnodd iddo gael ei ychwanegu fel eitem ar yr agenda i'w diweddaru yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd. | **CAM GWEITHREDU: Y Cyngor i sefydlu protocol ffurfiol ar gyfer cyfathrebu allanol ar ran y Bwrdd.**<br><br>**CAM GWEITHREDU: Ruth i'w ychwanegu fel eitem agenda ar gyfer cyfarfod nesaf y Bwrdd.** |
| **James Moore, Prif Gynllunydd (Prosiectau)** | |
| Cyflwynodd James ei hun a'i rôl fel Prif Gynllunydd yng Nghyngor | |

| | |
|---|---|
| Caerdydd i'r Bwrdd.<br><br><br>Mae'r Cyngor yn gweithio tuag at adolygiad o’r CDLl (Cynllun Datblygu Lleol). Bydd y broses gynllunio yn cymryd 2-3 blynedd ac awgrymodd y gallai cynrychiolydd o Adran Cynllunio'r Cyngor friffio'r Bwrdd pan fo’r ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gyflwyno.<br><br>Bydd Swyddogion Datblygu Economaidd sy'n gweithio ar waith Dinas Gerdd Caerdydd yn gweithio gydag Adran Cynllunio'r Cyngor i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ymgorffori argymhellion Strategaeth Gerdd Caerdydd lle bo hynny'n bosibl. | |
| **Diweddariad Gŵyl Dinas Gerdd Caerdydd – Ruth Cayford, Rheolwr Diwylliant a Diwydiannau Creadigol, Cyngor Caerdydd** | |
| Cadarnhaodd Ruth Cayford y bydd y Cyngor yn gwneud cyhoeddiad cyhoeddus yn y gwanwyn a bydd gwybodaeth yn cael ei dosbarthu i'r Bwrdd ymlaen llaw.<br><br>Croesawodd y Cyng. Thomas lefel y cyllid a gyflawnwyd gan Lywodraeth Cymru. | **CAM GWEITHREDU: Dosbarthu gwybodaeth am Ŵyl Dinas Gerdd Caerdydd** |
| **Diweddariad gan yr Is-grŵp Gorchwyl a Gorffen Parcio – Guto Brychan, Clwb Ifor Bach** | |
| Rhoddodd Guto Brychan ddiweddariad i’r Bwrdd ar ran yr Is-grŵp Gorchwyl a Gorffen Parcio a gyfarfu yn Neuadd y Sir yr wythnos diwethaf. Dewiswyd Stryd Womanby fel achos prawf i adolygu trefniadau.<br><br>Nododd Ruth Cayford fod swyddogion y Cyngor wedi cynnig edrych ar fesur i weithredu GRhT dros dro, gan weithio hefyd ar y camau y mae angen eu cymryd ar gyfer ateb mwy parhaol. | **CAM GWEITHREDU: Guto Brychan i goladu adborth o leoliadau ar Stryd Womanby.**<br><br>**CAM GWEITHREDU: Ruth Cayford i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y Cyngor ar gyfer gweithredu GRhT yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.** |
| **Diweddariad gan y Swyddog Cerddoriaeth – Y Cyng. Huw Thomas, Arweinydd Cyngor Caerdydd** | |
| Mae cyllideb y Cyngor wedi cadarnhau cyllid ar gyfer rôl Swyddog Cerddoriaeth yn y flwyddyn ariannol newydd (2020/21). Awgrymodd y Cyng. Thomas y gallai’r Bwrdd gynorthwyo trwy weithio gyda Swyddogion y Cyngor i lunio ac adolygu Disgrifiad Swydd sy'n helpu i lywio'r rôl i gyflawni argymhellion y Strategaeth Gerddoriaeth a chefnogi Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd.<br><br>Argymhellodd y Cyng. Bradbury y dylai'r Swyddog Cerddoriaeth fod yn gynrychiolydd mewnol o'r Cyngor yn cefnogi gohebiaeth, cyfathrebu a gwaith y Bwrdd.<br><br>Awgrymodd Phil Sheeran y dylai’r Bwrdd wahodd Shain Shapiro i fod yn rhan o'r broses o ddatblygu rôl y Swyddog Cerddoriaeth, i gyd-fynd ag adroddiad Strategaeth Gerddoriaeth Caerdydd. | **CAM GWEITHREDU: Swyddogion i lunio Disgrifiad Swydd ar gyfer Swyddog Cerddoriaeth Caerdydd yn unol â rheoliadau Adnoddau Dynol Cyngor Caerdydd. Wedyn bydd aelodau'r Bwrdd a Sound Diplomacy yn helpu i adolygu’r Disgrifiad Swydd, rôl a chyfrifoldebau’r swydd a’r rhaglen waith.**<br><br>**CAM GWEITHREDU: Ruth Cayford i lunio datganiad i'r wasg maes o law unwaith y** |

| | |
|---|---|
| | **bydd y Disgrifiad Swydd wedi'i gwblhau.** |
| **Is-grŵp Addysg** | |
| Aelodau'r Is-grŵp Addysg Gerddoriaeth yw Ruth Cayford, Heather Brown, Michael Garvey, Hannah Jenkins, Bethan Elfyn, Tumi Williams, Andy Warnock a Gavin Allen.<br><br>Bydd cyfarfod cyntaf yr Is-grŵp Addysg yn cael ei gynnal am 10am ar 26 Mawrth ym Mhencadlys y BBC, Sgwâr Canolog. Cytunwyd i'r is-grŵp ystyried argymhellion Adroddiad y Strategaeth Cerddoriaeth yn y lle cyntaf, a bod yn ymwybodol o reoli disgwyliadau wrth gydbwyso adnoddau ag uchelgais. | **CAM GWEITHREDU: Ruth Cayford i anfon argymhellion yr adroddiad at Bethan i helpu i lunio agenda.** |
| **Is-grŵp Gorchwyl a Gorffen Lleoliadau** | |
| Pwysleisiodd Ruth Cayford fod yr is-grŵp yn canolbwyntio'n bennaf ar ddatblygu cynulleidfaoedd a chytunodd yr Aelodau Bwrdd canlynol i ffurfio'r is-grŵp gyda phresenoldeb o leiaf un swyddog Cyngor fesul cyfarfod i sicrhau bod cofnodion yn cael eu cofnodi: Ruth Cayford, Heather Brown, Antwn Owen-Hicks, Gavin Allen, Helia Phoenix, Daniel Minty, Guto Brychan a Liz Hunt. | |
| **Diweddariad Cymru Greadigol – Gerwyn Evans, Llywodraeth Cymru** | |
| Lansiwyd y peilot ar 29 Ionawr 2019. Mae wedi cael ei groesawu’n dda gan y diwydiant hyd yn hyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio Cronfa Cerddoriaeth Lawr Gwlad. Dim ond 6 chais a gawsant yn y cylch hwn ond maent yn disgwyl mwy o geisiadau ym mis Mai.<br><br>Mae Cymru Greadigol wedi cynnal ymchwil i Leoliadau Cerddoriaeth Fyw a fydd yn cael eu cyhoeddi fis nesaf. Bydd Gerwyn Evans yn anfon manylion at Ruth Cayford i'w rhannu â'r Bwrdd Cerddoriaeth.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn recriwtio'n fewnol a bydd Pennaeth Cerddoriaeth newydd yn cael ei benodi a fydd yn dod yn gyfrwng allweddol i Fwrdd Cerddoriaeth a Thîm Cerddoriaeth Caerdydd. | **CAM GWEITHREDU: Bydd Gerwyn Evans yn cadarnhau grantiau cymeradwy terfynol o'r Gronfa Cerddoriaeth Sylfaenol maes o law ac yn eu trosglwyddo i Ruth i'w dosbarthu i Fwrdd Cerddoriaeth Caerdydd, ynghyd â manylion ymchwil Llywodraeth Cymru i Leoliadau Cerddoriaeth Fyw yng Nghymru.**<br><br>**CAM GWEITHREDU: Bydd Gerwyn yn rhannu manylion â Ruth ynglŷn â Disgrifiad Swydd Pennaeth Cerdd Newydd Llywodraeth Cymru.** |
| **Unrhyw fater arall** | |
| Cododd y Cyng. Thomas fater cyfraith mewnfudo newydd Llywodraeth y DU a'i heffaith ar gyfyngiadau trwyddedau i gerddorion wrth i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd. Nodwyd bod Undeb y Cerddorion yn lobïo am 'basbort Cerddor' a fyddai'n gweithredu mewn ffordd debyg i fisa. Ychwanegodd Phil Sheeran y byddai effaith ddifrifol ar artistiaid/cerddorion rhyngwladol oherwydd y gost a'r weinyddiaeth a fyddai ei hangen, yn enwedig gan nad oes mecanwaith ar gyfer cymorth ar gael ar hyn o bryd i leoliadau ac artistiaid. | |

| | |
|---|---|
| Nododd y Cyng. Bradbury fod Kevin Brennan AS a Jo Stevens AS wedi codi mater y gyfraith mewnfudo newydd i gerddorion yn y senedd.<br><br>Gofynnodd y Cyng. Thomas i Andy Warnock friffio'r Bwrdd yn y cyfarfod nesaf am rôl Undeb y Cerddorion wrth ddatrys materion sy’n ymwneud â chyfyngiadau trwydded i Gerddorion yn y DU ac Ewrop.<br><br>Mae Siop Gerdd Gamlins yn cau oherwydd ymddeoliad y perchennog ac awgrymodd Adrian Field fod y Bwrdd yn cydnabod cyfraniad y perchennog i'r sin gerddoriaeth leol.<br><br>**Cyfarfod nesaf y Bwrdd: 18 Mai 2020** | **CAM GWEITHREDU: Ruth Cayford i ychwanegu briff at yr agenda ar gyfer cyfarfod nesaf y Bwrdd.**<br><br>**CAM GWEITHREDU: Datganiad drafft y Bwrdd ar gyfer cau Gamlin.** |